



RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL:

1/2020

DYDDIAD CYHOEDDI:

18/03/2020

Deall Cyllid Awdurdodau Lleol ar gyfer Cymorth Llety Anableddau Dysgu Ledled Cymru

Deall Cyllid Awdurdodau Lleol ar gyfer Cymorth Llety Anableddau Dysgu Ledled Cymru

Awdur: Hugh Irwin – Y Bartneriaeth Cadenza

Cyfranogwyr eraill: Bruce Whitear

The logo for Cadenza, featuring the word "cadenza" in a bold, blue, lowercase sans-serif font.

Adroddiad Ymchwil Cyflawn: Irwin, H., a Whitear, B. (2019). *Deall Cyllid Awdurdodau Lleol ar gyfer Cymorth Llety Anableddau Dysgu Ledled Cymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR 1/2020.
Ar gael ar: <https://llyw.cymru/deall-cyllid-awdurdodau-lleol-ar-gyfer-cymorth-llety-anableddau-dysgu-ledled-cymru>

Barn yr ymchwilydd sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad hwn ac nid barn
Llywodraeth Cymru o angenrhaid

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Rhian Davies

Is-adran Ymchwil Cymdeithasol a Gwybodaeth

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 0300 025 6791

E-bost: Rhian.Davies45@llyw.cymru

Tabl cynnwys

Rhestr tablau.....	2
Geirfa	3
1. Cyflwyniad/Cefndir	5
2. Methodoleg	11
3. Canfyddiadau	15
4. Casgliadau	33
5. Opsiynau	36
Cyfeiriadau.....	40
Atodiad A	41

Rhestr Tablau

Tabl 1: Gwariant Awdurdodau Lleol (GRhCP a Gofal Cymdeithasol) ar Anableddau Dysgu.	9
Tabl 2: Gwariant GRhCP Awdurdodau Lleol ar AD.....	18
Tabl 3: Gwariant GRhCP ALI rhwng 2014 a 2018.....	20
Tabl 4: Gwariant GRhCP ALLau rhwng 2014 a 2018.....	23

Geirfa

Acronym/Gair allweddol	Diffiniad
GCT	Grant Cymorth Tai
DTC	Deddf Tai Cymru 2014
IQ	Intelligence Quota
ALI	Awdurdod(au) Lleol
AD	Anabledd Dysgu
AnawD	Anawsterau Dysgu
PCRh	Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol
CDRh	Cydlynnydd Datblygu Rhanbarthol
GCR	Grant Cymorth Refeniw
BCh	Byw â Chymorth
RhGCP	Rhwydwaith Gwybodaeth Cefnogi Pobl
BYCCP	Bwrdd Ymgynghorol Cenedlaethol Cefnogi Pobl
CPP	Cynllun Cefnogi Pobl
GRhCP	Grant Rhaglen Cefnogi Pobl
DGCLI	Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014
BTT	Budd-dal Tai Trosiannol
CLILC	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
LIC	Llywodraeth Cymru

Diolchiadau

Hoffai'r tîm gwerthuso ddiolch yn fawr i bawb wnaeth gymryd rhan yn yr adolygiad, neu gyfrannu ato. Rydym yn benodol ddiolchgar i randdeiliaid awdurdod lleol wnaeth roi o'u hamser i rannu eu profiadau a'u barn werthfawr.

Yn olaf, hoffem ddiolch i Rhian Davies, rheolwr contract yr adolygiad yn Llywodraeth Cymru, ac aelodau grŵp llywio'r gwerthusiad: Liz Cook a Paul Webb am eu mewnbwn.

1. Cyflwyniad/Cefndir

- 1.1 Penodwyd y Bartneriaeth Cadenza gan Lywodraeth Cymru (LIC) i ddatblygu dealltwriaeth o natur a sgôp cyllid awdurdod lleol presennol ar gyfer cymorth tai anableddau dysgu.
- 1.2 Yn erbyn cefndir o adolygiadau polisi cenedlaethol, llwybrau ymholiad manwl a lleol, a phwysau llymder parhaus, ceisiodd LIC ddeall y dirwedd lle caiff cyllid Grant Rhaglen Cefnogi Pobl (GRhCP) ei ddarparu ynddi yn y maes cymorth tai i'r rheiny ag anabledd dysgu. Mae'r Rhaglen a'i gyllid wedi denu sylw ers ei dechrau, a chredir yn eang bod ei dehongliad a'i defnydd yn anghyson ar ei orau, ac i'r gwrthwyneb yn cael ei hail-gyfeirio i gefnogi gweithgarwch gofal anghymwys sydd heb lawer o gyllid.
- 1.3 Hoffai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y canllawiau y mae'n ei roi i awdurdodau lleol i gyflawni canlyniadau bwriedig Cefnogi Pobl yn glir ac yn grymuso defnyddwyr gwasanaeth a darparwyr.
- 1.4 Bydd cyflwyniad Grant Cymorth Tai (GCT) newydd yn disodli'r GRhCP, sef rhaglen grant ymyrraeth gynnar pwysig sy'n atal pobl rhag dod yn ddigartref, yn sefydlogi eu sefyllfa dai, neu'n helpu pobl all fynd yn ddigartref i ddod o hyd i lety a chadw'r llety hwnnw.
- 1.5 Bydd y GCT yn dod i rym ym mis Ebrill 2020 yn dilyn Rhaglen Cyllido Hyblyg Llywodraeth Cymru, sydd â'r nod o ddod â grantiau amrywiol ynghyd, gan gryfhau gallu awdurdodau lleol a'u partneriaid i gynnig gwasanaethau ataliol ac i roi rhagor o hyblygrwydd i awdurdodau lleol o ran y ffordd y caiff y cyllid ei wario. Mae'r GCT newydd yn cynnwys grantiau Cefnogi Pobl, Atal Digartrefedd a Gorfodi Rhentu Doeth Cymru.
- 1.6 Bydd y ddogfen hon yn defnyddio'r termau GRhCP a GCT fel ei gilydd, ac at ddibenion yr adolygiad hwn byddant yn cael eu hystyried yn yr un modd.

Cyd-destun Polisi

- 1.7 Caiff Cymorth Tai Anableddau Dysgu (AD) ei ariannu'n bennaf drwy'r Rhaglen Cefnogi Pobl (RhCP) ddaeth i'r amlwg yn 2003. Mae cwestiynau hir-sefydlog am ddyluniad y Rhaglen, ac mae gwerthuso ei chyflawniad wedi peri cwestiynau pellach am gysondeb ac effaith ei defnyddio. Mae'r Rhaglen Cefnogi Pobl (RhCP) yn cefnogi dros 60,000 o bobl i fyw mor annibynnol â phosibl bob blwyddyn. Mae'n ariannu amryw o wasanaethau i helpu ystod eang o bobl ynysig sydd mewn perygl o brofi argyfwng tai, gan gynnwys pobl sydd mewn perygl o ddod yn ddigartref; pobl sy'n delio â phroblemau iechyd meddwl neu gorfforol, neu anableddau dysgu; cynbersonel y lluoedd arfog; pobl sy'n gadael gofal; a phobl hŷn sydd angen cefnogaeth. Cefnogi pobl sydd ag Anabledd Dysgu yw'r maes gwariant mwyaf o bellford, gan gynrychioli oddeutu 25% o'r pot yn ei gyfanrwydd (Tabl 1).
- 1.8 Mae gwasanaethau Cefnogi Pobl (CP) yn chwarae rhan hanfodol o ran atal digartrefedd yng Nghymru, gan alluogi pobl i reoli eu bywydau eu hun a byw'n hyderus mewn cartrefi diogel a saff. Drwy gynnig cefnogaeth o safon i bobl agored i niwed, yn aml mae gwasanaethau CP yn ceisio helpu i osgoi achosion o dderbyn i ysbysu a digartrefedd, lleihau'r angen am ymyriadau drud a lleihau'r pwysau ar wasanaethau statudol megis iechyd, gofal cymdeithasol a'r system cyfiawnder troseddol. Yn 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'n diogelu cyllid y Rhaglen Cefnogi Pobl am ddwy flynedd.
- 1.9 Yn 2010, arweiniodd yr Athro Syr Mansel Aylward o lechyd Cyhoeddus Cymru adolygiad o'r rhaglen, wnaeth arwain at gyflwyno 25 o argymhellion¹. Yn dilyn 'Adolygiad Aylward', bu symudiad o ddwy ffrwd arian (Grant Refeniw Cefnogi Pobl a'r Grant Cefnogi Pobl) i un grant cyfunol o'r enw Grant Rhaglen Cefnogi Pobl. Yn ystod 2011/12, gwnaeth Llywodraeth Cymru, ar y cyd â phrif bartneriaid (gan gynnwys Cymorth Cymru) ddatblygu canllaw ar strwythur newydd y GRhCP i roi cyngor a gwybodaeth ymarferol i ymarferwyr y maes².

¹ Rhaglen Cefnogi Pobl yng Nghymru: Adroddiad terfynol ar adolygiad a gomisiynwyd gan Jocelyn Davies AS, Dirprwy Weinidog Tai ac Adfywio, Cynulliad Cymru (2010)

² Llywodraeth Cymru, Canllawiau Grant Rhaglen Cefnogi Pobl-Cymru, Mehefin 2013

- 1.10 Yn dilyn 'Adolygiad Aylward' sefydlwyd Bwrdd Cyngori Cenedlaethol Cefnogi Pobl (BCCCP) gyda Phwyllgrau Cydweithredol Rhanbarthol (PCRhau) (wedi'u halinio ag olion troed byrddau iechyd presennol) er mwyn cefnogi cynllunio a gwariant ym mhob rhanbarth. Mae'r PCRhau yn rhai aml-asiantaethol ac maent wedi'u halinio â'r trefniadau partneriaethau strategol a sefydlwyd drwy weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (DGCLI 2014).
- 1.11 Mae 'Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith gweithredu' (2011) yn nodi'n glir barn Llywodraeth Cymru bod angen i Wasanaethau Cymdeithasol a'i bartneriaid drawsffurfio'r ffordd y caiff gwasanaethau eu cyflawni, gan gydweithio ledled sectorau'n well a sicrhau ffocws gwirioneddol ar ddinasyddion, yn hytrach na chynildeb lle mae sefydliadau unigol yn lleihau'r ddarpariaeth bresennol i leihau costau, gyda goblygiadau amlwg ar gyfer ansawdd gwasanaeth.
- 1.12 Mae DGCLI 2014 yn rhoi cyfrifoldeb statudol ar lywodraeth leol a'i bartneriaid i ddatblygu ymhellach gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar gadw pobl mor annibynnol â phosibl a lleihau neu atal y gofyn ar gyfer gwasanaethau targedig, ac yn benodol, symud allan o ofal hirdymor a sefydliadol. Y prif nodau yw gwella canlyniadau i unigolion tra'n sicrhau cynaliadwyedd gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru ar yr un pryd.
- 1.13 Mae dyletswyddau atal clir dan y ddeddf sy'n gorfodi awdurdodau lleol i fanteisio ar ddefnyddio strategaethau atal ac adnoddau sydd un ai'n stopio neu'n arafu'r broses o symud tuag at angen gofal cymdeithasol statudol. Mae tebygrwydd clir rhwng dyletswyddau atal dan DGCLI 2014 a nodau Rhaglen Cefnogi Pobl.
- 1.14 Yng nghyllideb ddrafft LIC yn ystod mis Rhagfyr 2018, cyhoeddwyd bod cynlluniau i uno'r Grant Rhaglen Cefnogi Pobl i mewn i'r Grant Cymorth Refeniw mwy cyffredinol i awdurdodau lleol. Y nod oedd rhoi mwy o hyblygrwydd i awdurdodau lleol o ran dyrannu adnoddau yn erbyn blaenoriaethau lleol er nad yw uno'r ddwy ffrwd cyllid wedi digwydd hyd yma. Achosodd y broses uno bryderon gan y sector mewn perthynas â cholli'r diogelwch ar gyfer y maes cyllid hwn.

- 1.15 Mae cefnogi pobl gydag AD yn gysylltiedig iawn â phrojectau sy'n seiliedig ar lety (yn seiliedig ar ddaliadaethau) ac mae tystiolaeth hanesyddol gan randdeiliaid hyd yma yn awgrymu bod Gwasanaethau Cymdeithasol yn dibynnu ar gyllid CP i gefnogi'r grŵp hwn o gleientiaid, y tu hwnt i gymorth tai, fel datrysiad i fynd ar ôl diffygion yn y gyllideb gofal.
- 1.16 Mae heriau cyllid hefyd wedi'u cydblethu â heriau o ran rhannu cyllid etifeddiaeth lle mae lefelau cyllid GRhCP wedi'u dylanwadu'n helaeth gan ba mor rhagweithiol oedd awdurdodau lleol yn ystod yr ymarfer 'manteisio ar y pot' y Budd-dal Tai Trosiannol yn 2002 (y dull lle cafodd cyllid CP ei asesu a'i osod gyntaf). Mae heriau pellach o ran y gwahaniaethau rhwng anghenion mewn ardaloedd trefol a gwledig. O ganlyniad, mae wedi bod galw mawr ers tro i ail-ddyrannu cyllid - gan ddefnyddio fformiwla newydd i helpu i rannu'r cyllid i'r ardaloedd daearyddol gyda'r anghenion mwyaf. Fodd bynnag, mae angen pwysleisio nad yw ail-ddyrannu yn rhan o sgôp yr adolygiad hwn. Mae LIC wedi comisiynu darn o waith unigryw i gynorthwyo â phennu sut i reoli dyraniad y cyllid.
- 1.17 Ar hyn o bryd, mae Archwiliwr Cyffredinol Cymru yn cynnal archwiliad o sut mae awdurdodau lleol yn comisiynu'n strategol eu gwasanaethau anableddau dysgu. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar sut mae comisiynu yn cyfrannu at ganlyniadau a lles gwell i ddinasyddion. Bydd y gwaith hwn hefyd yn bwriadu cysylltu'r canlyniadau tymor hirach y ceisir o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a llwybrau ataliol a llwybrau'n seiliedig ar ganlyniadau fydd yn cael eu huchafu gan y Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.
- 1.18 Mae sawl adolygiad a gynhaliwyd gan LIC wedi amlygu problemau o ran cymhwysedd y cymorth i bobl ag anableddau dysgu a'r gwahaniaethau o ran lefel y gefnogaeth sydd ei hangen. Mae'r adolygiadau hyn wedi nodi nad oedd peth o'r gefnogaeth a ariannwyd drwy'r Rhaglen CP i bobl ag anableddau dysgu yn gymwys yn erbyn meini prawf Llywodraeth Cymru, gan nad oedd yn gymorth tai. O bersbectif Llywodraeth Cymru, roedd hyn yn arwain at y risg bod cyllid y Rhaglen,

sydd â'r nod o fynd ar ôl anghenion cymorth tai, yn cael ei ddefnyddio i gymorthdalau gweithgarwch gofal cymdeithasol ac iechyd.^{3 4 5 6}

Tabl 1: Rhaniad gwariant Rhaglen Cefnogi Pobl yn 2016-17 – dyraniadau awdurdodau lleol (Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata a gyflenwir gan Llywodraeth Cymru, 2017)

Meysydd gwariant mwyaf Pris yr uned (£)	Nifer cyffredinol yr unedau	Cyfanswm a wariwyd yr uned categori rhif 1 (£ miliynau)	Pris yr uned	Canran cyffredinol y cyllid
Pobl ag anableddau dysgu	2,847	30.57	10,739	25
Cymorth yn ôl yr angen cyffredinol i osgoi digartrefedd	4,933	15.94	3,232	13
Pobl â phroblemau iechyd meddwl	2,327	13.78	5,922	11
Pobl ifanc ag anghenion cymorth (16-24)	1,523	13.16	8,641	11
Pobl dros 55 oed gydag anghenion cymorth (heb gynnwys gwasanaethau larymau)	15,666	11.65	743	9
Menywod sy'n profi trais domestig	1,201	9.04	7,530	7
Categoriâu eraill (cyfanswm)	29,146	29.46	1,011	24
Cyfanswm	57,643	123.69	2,060	100

³ Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Rhaglen Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru, Mai 2018

⁴ Archwiliwr Cyffredinol Cymru, Rhaglen Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru, Awst 2017

⁵ Dyluniad Llywodraethu, Llywodraeth Cymru, 2013

⁶ Llywodraeth Cymru, Adolygiad Annibynnol Blwyddyn Trawsnewd Rhaglen Cefnogi Pobl (2014)

Sgôp yr Ymchwil

1.19 Roedd sgôp yr ymchwil yn cynnwys adolygu:

- sut mae cefnogaeth i bobl ag AD yn cael ei hasesu ar hyn o bryd, yn ogystal â'i chyflawni a'i hariannu o fewn awdurdodau lleol;
- y raddfa y mae dulliau lleol yn eistedd o fewn canllawiau GRhCP cenedlaethol; a
- lle byddai ymyrraeth LIC yn fwyaf defnyddiol o ran sicrhau mwy o gysondeb o ran dulliau a deall y risgiau i barhad y gwasanaethau y mae pobl ag AD yn eu derbyn.

1.20 Roedd y cwestiynau allweddol canlynol yn mynd i gael eu hateb drwy'r project ymchwil hwn:

1. Sut mae cymorth tai AD wedi'i strwythuro mewn Awdurdodau Lleol ledled Cymru?
2. Sut mae'r ffynhonnell gyllid, o fewn All, yn cael ei phennu (h.y. beth yw'r meini prawf er mwyn i gefnogaeth gael ei hariannu gan y ffynonellau amrywiol)?
3. Pa fath o gymorth/gweithgareddau sy'n cael eu hariannu?
4. Yw'r gefnogaeth yn sefydlog (cysylltiedig â llety) neu gymorth yn ôl yr angen (cysylltiedig â'r unigolyn)?
5. Beth yw cyfanswm lefel y cyllid cymorth tai AD o fewn bob All ledled y ffynonellau? Faint o'r cyllid hwn sy'n cael ei ddarparu i'r unigolion hynny y mae gan yr All ddyletswydd statudol ar gyfer eu gofal oherwydd AD?
6. Beth yw lefelau'r cyllid cymorth tai AD ledled Cymru?
7. Beth yw'r gwahaniaethau (a'r rhesymau dros y gwahaniaethau) yn lefel y cyllid cymorth tai AD ledled awdurdodau lleol?
8. Oes unrhyw newid yn lefelau'r cyllid ers gweithrediad yr Adolygiad Aylward?

2. Methodoleg

2.1 Er mwyn ateb y cwestiynau a amlygwyd uchod, defnyddiodd y project hwn ymagwedd aml-ddull. Y dulliau a ddefnyddiwyd i wneud y gwaith ymchwil oedd:

- (a) Adolygiad bwrdd gwaith o ymarferion ymgynghori sydd eisoes wedi'u cynnal gan LIC
- (b) Casglu data meintiol ledled awdurdodau lleol yng Nghymru, ac adolygu'r data hwnnw
- (c) Cyfweiliadau meintiol a gweithdai gydag awdurdodau lleol yng Nghymru

Adolygiad bwrdd gwaith o'r arferion ymgynghori

2.2 Cynhaliodd LIC ymarfer ymgynghori gyda rhanddeiliaid o dimau CP a gofal cymdeithasol o bob un o'r 22 ardal awdurdod rhwng mis Ionawr a mis Medi 2019. Cynhaliwyd gweithgareddau ymgysylltu gyda:

- (a) Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol (PCRhau)
- (b) Cydlynwyr Datblygu Rhanbarthol (CDRh)
- (c) Bwrdd Ymgynghori Cenedlaethol Cefnogi Pobl (BYCCP)
- (d) Rhwydwaith Gwybodaeth Cefnogi Pobl (RhGCP)
- (e) Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)
- (f) Cynrychiolwyr darparwyr.

2.3 Roedd yr ymarfer ymgynghori yn canolbwyntio ar:

- ddeall sut mae Awdurdodau Lleol yn defnyddio'r ddarpariaeth cymorth tai i'r rheiny ag AD, gan gynnwys comisiynu a chyflawni'r gefnogaeth ledled gwahanol fathau o ddaliadaethau;
- deall barn rhanddeiliaid o ran sut ddylid ariannu cymorth tai i'r rheiny ag AD yng nghyd-destun y GCT newydd; a,

- helpu i adnabod y prif faterion a'r risgiau sydd angen eu hystyried wrth wneud penderfyniad ynghylch cyllid i'r dyfodol.

- 2.4 Cafodd ymatebion yr ymarferion eu dadansoddi'n systematig, eu codio a'u mynegeo yn ôl themâu newydd ac amlwg. Cynorthwyodd ganfyddiadau'r ymarfer bwrdd gwaith hwn wrth ddylunio'r holiadur a ddefnyddiwyd yn ystod cyfweiliadau oedd yn rhannol wedi'u strwythuro gydag ALLau (gweler 2.12). Roedd y cwestiynau oedd yn deillio o'r dadansoddiad yn cynnwys:
- (i) Os oedd lleihad o ran lefelau cyllid – yw'r effaith wedi'i mesur i ddarparwyr gwasanaeth a defnyddwyr gwasanaeth?
 - (ii) Oes cyfle i ddyrannu cyllid GRhCP sy'n cefnogi gwasanaethau byw â chymorth i'r GCR a chadw swm penodol yn y GCT ar gyfer cefnogaeth yn ôl yr angen?
 - (iii) Oes angen i fodel cymorth yn ôl yr angen fod yn gyffredinol, yn canolbwyntio ar anabledau dysgu neu'n canolbwyntio ar oedolion agored i niwed (megis Torfaen) sy'n cynnwys pobl ag AD? Beth yw'r rhesymeg dros benderfynu – a yw'n seiliedig ar ddadansoddiad pris/effaith?
 - (iv) Pam fod anghysondebau o ran beth a elwir yn 'statudol' ac yn 'anstatudol'. Defnyddir meini prawf trothwy gwahanol gan dimau gofal cymdeithasol er mwyn asesu dyletswydd? Fodd bynnag, mae gan ddarpariaethau yn DTC 2014 a DGCLI 2014 ddyletswyddau atal statudol sy'n herio'r cysyniad traddodiadol o 'gymhwysedd'. Os caiff cyllid ei drosglwyddo o'r GCT i'r GCR, oes unrhyw bryderon o ran diffyg diogelwch a chyllid yn cael ei flaenoriaethu ar gyfer achosion 'statudol' yn unig – gan golli ffocws ar atal?
 - (v) A fyddai ail-ddyrannu cyllid o'r GCT i'r GCR yn cael unrhyw effaith positif neu negatif ar unrhyw setliad ail-ddyrannu - gan yrru arferion diogelu neu benderfyniadau'n seiliedig ar wneud y mwyaf o refeniw?
 - (vi) A fyddai dull cam wrth gam, llywodraethu pwrpasol neu ganllaw statudol neu ddulliau adolygu yn lleddfu unrhyw bryderon am y newidiadau arfaethedig?

Casglu Data Meintiol

- 2.5 Bu i'r ymarfer casglu data gasglu'r brif wybodaeth ariannol oedd ei hangen i ateb y cwestiynau ymchwil drwy ddull casglu data a rannwyd gyda bob awdurdod lleol yng Nghymru. Cafodd y dull casglu data ei ddylunio ar y cyd gyda mewnbwn gan ddau gynrychiolydd-Trysorydd a adnabuwyd gan dîm adolygu projectau LIC. Roedd hyn yn sicrhau bod y dull casglu yn ymarferol, yn bragmatig ac yn ystyrlon a'i fod yn hwyluso'r gwaith o gasglu data ariannol priodol. Roedd y dull yn gofyn am ddata ar wariant awdurdodau lleol ledled gofal cymdeithasol a'r GRhCP ar gyfer cyflawniad gwasanaethau i bobl ag AD.
- 2.6 Yna, cafodd y dull casglu data ei rannu â'r ALIau er mwyn iddynt ei gwblhau a'i ddychwelyd erbyn dyddiad oedd wedi'i drefnu ymlaen llaw. Bu i 18 o'r 22 ALI ddychwelyd setiau data cyflawn neu setiau data oedd yn rhannol gyflawn yn yr amser a ddyrannwyd ar gyfer yr adolygiad hwn.
- 2.7 Nid oedd bob ALI yn gallu cwblhau'r wybodaeth ar wariant gofal cymdeithasol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018/19. Felly, er mwyn sicrhau cymariaethau cyson rhwng GRhCP a gwariant gofal cymdeithasol, roedd y broses ddadansoddi yn canolbwyntio ar wariant yn ystod 2017/18.
- 2.8 Cafodd y data ar wariant gofal cymdeithasol a ddarparwyd gan randdeiliaid ei ddilysu (gan gynnwys llenwi'r bylchau) drwy ddadansoddi Setiau Data Gwariant Alldro Refeniw Gwasanaethau Cymdeithasol gafodd eu creu ar StatsCymru. Mae'r rhain yn cynnig manylion ar wariant bob ALI yn ôl grwpiau cleientiaid⁷.
- 2.9 Roedd bob dychweliad yn cynnwys data gwariant GRhCP o leiaf 2014/15 ymlaen.
- 2.10 Defnyddiwyd set data Cofrestrau Pobl ag Anableddau Dysgu Awdurdodau Lleol Llywodraeth Cymru er mwyn cyfrifo gwariant gofal cymdeithasol y person gan bob ALI⁸.

⁷ Llywodraeth Cymru – Gwariant Refeniw Gwasanaethau Cymdeithasol yn ôl grŵp cleientiaid (StatsCymru 2018)

⁸ Llywodraeth Cymru – Unigolion ag anableddau dysgu yn ôl awdurdod lleol, gwasanaeth ac ystod oedran (StatsCymru 2018)

- 2.11 Mae LIC yn casglu gwybodaeth ar nifer y bobl gafodd eu rhoi ar gofrestr pobl ag anableddau dysgu ar 31 Mawrth bob blwyddyn o adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol. Caiff hyn ei dorri i lawr yn ôl preswylfa a band oedran. Mae cyfyngiadau gyda'r data hwn gan fod llawer o bobl yn dewis peidio cael eu cynnwys ar gofrestrau ALI. Mae hefyd rhai pobl ar gofrestrau nad ydynt yn derbyn unrhyw ofal a chymorth gan awdurdodau lleol, a phobl eraill sy'n derbyn gofal a chymorth ond ddim ar y cofrestrau. Felly, mae'r dadansoddiad yn rhoi canfyddiadau dangosol yn unig.

Casglu Data Ansoddol

- 2.12 I gefnogi'r ymarfer casglu data meintiol, roedd angen gwybodaeth ansoddol i helpu i ddeall y data a gesglir ac i ddeall meini prawf y ffynonellau cyllid a'r rhesymau dros lefelau cyllid presennol a hanesyddol. Gwnaethpwyd hyn drwy gyfweiliadau ffôn oedd yn rhannol strwythuredig (gellid dod o hyd i'r teclynnau ymchwil yn Atodiad A). Cafodd yr holiadur a ddefnyddiwyd yn y cyfweiliadau fel sail drafodaeth ei ddylunio ar y cyd rhwng yr ymchwilwyr a'r tîm project LIC oedd yn goruchwyllo'r adolygiad, cyn cyflwyno'r teclyn meintiol. Anfonwyd y cwestiynau at ALLau i'w hystyried cyn y cyfweiliadau gyda chyfarwyddiadau'n nodi bod barn yr unigolion fyddai'n cymryd rhan yn y cyfweiliadau yn cynrychioli barn yr ALI yn ei gyfanrwydd - nid is-rannau cyfansoddol h.y. Cyllid, Cefnogi Pobl neu dimau Gofal Cymdeithasol.
- 2.13 Cynhaliwyd cyfanswm o 14 o gyfweiliadau ffôn yn yr amser oedd ar gael ar gyfer y gwaith ymchwil hwn. Roedd rhai ALLau yn cynnwys mwy nag un cyfwelai – gan olygu mai 16 oedd cyfanswm nifer y cyfweleion. Ymhlith y rheiny a gyfwelwyd oedd:
- i. 9 Arweinydd CP a/neu Tai
 - ii. 2 gyda chyfrifoldebau comisiynu ledled CP a gofal cymdeithasol
 - iii. 4 arweinydd gofal cymdeithasol
 - iv. 1 arweinydd cyllid
- 2.14 Mae Atodiad B yn cynnwys rhestr o awdurdodau lleol a gymrodd ran yn yr ymchwil hwn.

3. Canfyddiadau

- 3.1 Mae'r rhan hon yn amlinellu'r prif ganfyddiadau o'r dulliau a nodir yn Rhan 2 (Methodoleg).
- 3.2 Mae'r canfyddiadau ansoddol o'r cyfweiliadau ochr yn ochr â dadansoddiad meintiol o'r setiau data wedi'u cyflwyno gyda'i gilydd yn y bennod hon.
- 3.3 Mae'r pennod hwn wedi'i drefnu yn ôl y prif themâu a ddaeth i'r amlwg o'r gwaith ymchwil hwn:

Ymarferion ymgynghori a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru

- 3.4 Nododd dadansoddiad bwrdd gwaith o ymarferion ymgynghori oedd eisoes wedi'u cynnal gan Lywodraeth Cymru wahaniaeth o ran arferion comisiynu ALLau yn dilyn cyflwyno Canllaw Grant Rhaglen Cefnogi Pobl, LIC, Cymru, Mehefin 2013.
- 3.5 Roedd sawl ALI eisoes wedi dechrau newid eu dull o ran comisiynu gwasanaethau AD mewn ymateb i gyflwyno'r canllawiau newydd yn 2013 – gydag alldro 16 allan o 18 ALI yn adlewyrchu lleihad mewn gwariant AD. Roedd y newidiadau'n amrywiol (gyda rhai themâu cyffredin) gan gynnwys:
 - i. Nododd sawl awdurdod lleol eu bod wedi lleihau'n sylweddol eu gwariant CP ar wasanaethau AD dros y 3-4 blynedd ddiwethaf.
 - ii. Roedd newidiadau eisoes ar waith mewn rhai ardaloedd awdurdod lleol i ariannu gwasanaethau byw â chymorth drwy gyllid gofal cymdeithasol yn unig (o'r pot Grant Cymorth Refeniw (GCR)) gyda chyllid GRhCP yn cael ei ailgyfeirio at fodelau cymorth yn ôl yr angen – boed y rheiny'n fodelau cyffredinol (ar agor i bob grŵp o gleientiaid) neu fodelau AD arbenigol, neu gyfuniad o'r ddau.
 - iii. Profiadau darparwyr gwasanaeth oedd bod rhai awdurdodau lleol wedi cynnal lefelau cyllid presennol ar gyfer cynlluniau byw â chymorth, tra bod darparwyr gwasanaeth eraill wedi gweld lleihau cyffredinol yn y cyllid yn dilyn adolygiad cymhwysedd GRhCP.
 - iv. Bu i rai ALLau gyflwyno capiau newydd ar gostau unedau GRhCP, neu leihau rhai presennol, o fewn cynlluniau byw â chymorth. Yn yr achosion hyn –

roedd y penderfyniad i gadw cyllid GRhCP yn rhan o gynllun comisiynu ar gyfer gwasanaethau byw â chymorth yn parhau.

- v. Some LAs introduced new local SPPG tariff levels and revised bandings for commissioning housing related support needs.

Data Ariannol

- 3.6 Y gwariant cymedrig cyffredinol y person ar AD (CP a gofal cymdeithasol) yw £33,902 ledled yr 18 ALI lle mae'r data ar gael. £30,619 yw'r canolrif. Mae allgreigiau amlwg gan gynnwys Merthyr Tudful sy'n gwario £62,287 y person ar gyfartaledd, a Chasnewydd sy'n gwario £22,798 y person ar gyfartaledd.

Tabl 2: Gwariant Awdurdodau Lleol (GRhCP a Gofal Cymdeithasol) ar Anableddau Dysgu 2017/18

Awdurdod Lleol	Nifer y bobl sydd ar y gofrestr AD (16-64 oed)	Cyfanswm gwariant yr ALI ar AD	Cyfanswm y gwariant GRhCP a ddyranwyd ar gyfer AD	GRhCP - % o gyfanswm y gwariant ar AD?	Cyfanswm gwariant Gofal Cymdeithasol ar AD	Gofal Cymdeithasol - % o gyfanswm y gwariant ar AD	Cyfartaledd cyfanswm gwariant y person	Cyfartaledd gwariant GRhCP y person
Ynys Môn	322	£11,076,030	£493,030	4.5%	£10,583,000	95.5%	£34,398	£1,531
Blaenau Gwent	365	£10,834,498	£95,498	0.9%	£10,739,000	99.1%	£29,684	£262
Pen-y-bont ar Ogwr	492	Dd/B	Dd/B	Dd/B	£21,045,000	Dd/B	Dd/B	Dd/B
Caerffili	803	£24,517,992	£1,115,992	4.6%	£23,402,000	95.4%	£30,533	£1,390
Caerdydd	1,403	£42,357,167	£2,227,167	5.3%	£40,130,000	96.7%	£30,190	£1,587
Sir Gaerfyrddin	1,203	£36,835,000	£1,325,000	3.6%	£35,510,000	96.4%	£30,619	£1,101
Ceredigion	421	£13,830,000	£701,000	5.1%	£13,129,000	94.9%	£32,850	£1,665
Conwy	633	£21,885,402	£2,200,402	10.1%	£19,685,000	89.9%	£34,574	£3,476
Sir Ddinbych	604	£19,719,078	£1,053,078	5.3%	£18,666,000	94.7%	£32,648	£1,744
Sir y Fflint	909	£24,863,560	£1,138,560	4.6%	£23,725,000	95.4%	£27,353	£1,253

Gwynedd	699	£21,040,822	£1,917,822	9.1%	£19,123,000	90.9%	£30,101	£2,744
Merthyr Tudful	224	£13,952,167	£254,167	1.8%	£13,698,000	98.2%	£62,287	£1,135
Sir Fynwy	286	£10,625,953	£0	0%	£10,625,953	100%	£37,154	£0
Castell Nedd Port Talbot	510	£21,803,008	£1,371,008	6.3%	£20,432,000	93.7%	£42,750	£2,688
Casnewydd	802	£18,283,713	£545,713	3.0%	£17,738,000	97.0%	£22,798	£680
Sir Benfro	496	£24,072,447	£772,447	3.2%	£23,300,000	96.8%	£48,533	£1,557
Powys	488	Dd/B	Dd/B	Dd/B	£27,491,000	Dd/B	Dd/B	Dd/B
RhCT	1,195	Dd/B	Dd/B	Dd/B	£30,494,000	Dd/B	Dd/B	Dd/B
Abertawe	1,057	£24,713,199	£2,843,199	11.5%	£21,870,000	88.5%	£23,380	£2,690
Torfaen	363	£9,309,451	£336,451	0.4%	£8,973,000	99.6%	£25,646	£927
Bro Morgannwg	Dd/B	Dd/B	Dd/B	Dd/B	£14,680,000	Dd/B	Dd/B	Dd/B
Wrecsam	568	£19,727,472	£1,507,472	7.6%	£18,220,000	92.4%	£34,731	£2,654
Cyfanswm	13843	Dd/B	Dd/B	Dd/B	Dd/B	Dd/B	Dd/B	Dd/B

Dd/B – Ddim ar gael

Gwariant GRhCP ar wasanaethau i bobl ag AD yn unig

- 3.7 Y gwariant GRhCP cymedrig fesul person (Tabl 2) yw £1,616 ledled yr 18 Awdurdod Lleol y mae data ar y cyfer ar gael yn rhan o'r ymchwil hwn. £1,390 yw'r canolrif gydag allgreigiau sylweddol o wariant cyfartalog o £0 yn Sir Fynwy (sydd wedi symud eu holl wariant GRhCP ar AD un ai i'r GCR neu i gontractau cymorth yn ôl yr angen) i £3,476 yng Nghonwy. Mae Conwy yn ariannu ei wasanaethau AD i raddfa helaeth o GRhCP ar 10% o'r cyfanswm. Mae'r tueddiadau gwariant yn adlewyrchu bod y gyllideb gofal cymdeithasol yn dal i dalu am ran helaeth y costau AD.
- 3.8 Mae angen pwysleisio fan hyn nad yw peidio â bod ag unrhyw wariant GRhCP penodol ar gyfer AD yn golygu nad yw ALLau yn gwario unrhyw GRhCP ar bobl ag AD, oherwydd mae'n bosibl eu bod nhw'n derbyn cymorth drwy gontractau cyffredinol ynghyd â grwpiau cleientiaid eraill

Tabl 3: Gwariant GRhCP Awdurdodau Lleol ar Ddarpariaeth Gwasanaeth AD Penodol

Awdurdod Lleol	Cyfanswm gwariant GRhCP ar Gynlluniau Byw â Chymorth AD neu Gynlluniau Lleoliadau Oedolion	Cyfanswm gwariant GRhCP ar AD – Cymorth yn ôl yr angen yn benodol	% o gymorth yn ôl yr angen o gyfanswm gwariant GRhCP AD	Cyfanswm gwariant GRhCP ar brojectau AD eraill (e.e. cefnogaeth yn y gymuned ochr yn ochr â gofal cartref)
Ynys Môn	£457,088	£35,942	7%	£0
Blaenau Gwent	£26,498	£69,000	72%	£0
Pen-y-bont ar Ogwr	Dd/B	Dd/B	0%	Dd/B
Caerffili	£1,014,409	£101,583	9%	£0
Caerdydd	£2,227,167	£0	0%	£0
Sir Gaerfyrddin	£1,325,000	£0	0%	£0
Ceredigion	£381,000	£45,000	6%	£275,000
Conwy	£1,427,361	£773,041	35%	£0
Sir Ddinbych	£1,046,653	£6,425	0.6%	£0
Sir y Fflint	£1,138,560	£0	0%	£0
Gwynedd	£1,483,659	£434,163	23%	£0
Merthyr Tudful	£254,167	£0	0%	Dd/B
Sir Fynwy	£0	£0	0%	£0
CNPT	£1,325,825	£45,183	3.3%	£0
Casnewydd	£296,814.48	£180,283.48	33%	£68,615.95
Sir Benfro	£758,953.95	£0	0%	£13,494.00
Powys	Dd/B	Dd/B	Dd/B	Dd/B
RhCT	Dd/B	Dd/B	Dd/B	Dd/B
Abertawe	£2,697,501	£145,698	5%	£0
Torfaen	£0	£336,451	100%	Dd/B
Bro Morgannwg	Dd/B	Dd/B	Dd/B	Dd/B
Wreccsam	£1,507,472	£0	0%	£0

Sut mae'r GRhCP yn cael ei ddefnyddio ar gyfer AD mewn ALLau ar hyn o bryd (ffigurau 2017/18)

- 3.9 Yn yr 18 ALI lle mae'r data ar gael, mae rhan fwyaf y gwariant GRhCP (87%) ar gynlluniau Byw â Chymorth neu Lleoliadau Oedolion. Mewn 6 allan o'r 18 ALI (Caerdydd, Merthyr Tudful, Sir Benfro, Sir y Fflint, Sir Gaerfyrddin a Wrecsam), mae'r GRhCP yn cael ei wario'n gyfan gwbl ar gynlluniau Byw â Chymorth neu Leoliadau Oedolion.
- 3.10 Mae Sir Fynwy, Torfaen a Blaenau Gwent wedi symud rhan helaeth neu'r holl wariant i fodolau Cymorth yn ôl yr Angen gan nodi bod meini prawf gwahanol yn cael eu defnyddio i bennu gwariant GRhCP cymwys ym mhob ALI wnaeth gymryd rhan.
- 3.11 Roedd mwyafrif helaeth (14 allan o 18) o'r adroddiadau ariannol yn nodi gwariant GRhCP llai ar AD. Yn ystod cyfweiliadau, daeth i'r amlwg bod y rhan fwyaf o'r lleihau yn sgil lleihau gwariant ar fyw â chymorth – cydnabyddiaeth bod peth o GRhCP a gomisiynwyd o'r blaen wedi'i wario ar weithgareddau oedd bellach yn cael eu hystyried yn anghymwys.
- 3.12 Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod chwech ALI (allan o 18) wedi nodi bod eu gwariant GRhCP ar AD yn cael ei ddyrannu i fyw â chymorth neu fodolau eraill yn seiliedig ar lety.
- 3.13 Er bod cyllidebau gofal cymdeithasol ALLau yn hanesyddol ac yn gynyddol gyfrifol am fwyafrif y gwariant ar AD – mae rhai yn dibynnu mwy ar GRhCP i helpu i ariannu gwasanaethau byw â chymorth. Mae pedwar ALI ar hyn o bryd yn defnyddio rhwng 7 a 12% o gyfanswm eu gwariant ar AD o bot y GRhCP. Er enghraifft, mae Abertawe yn defnyddio 11.5% o gyfanswm ei wariant ar AD o CP. Mae hyn gywerth â £2,843,199 y flwyddyn.

Newidiadau ers cyflwyno Llywodraeth Cymru, Canllaw Grant Rhaglen Cefnogi Pobl Cymru, Mehefin 2013

- 3.14 Ers gweithredu'r canllaw newydd (bryd hynny) yn dilyn adolygiad Aylward – mae'r rhan fwyaf o ALLau yn adrodd eu bod wedi lleihau eu gwariant GRhCP ar wasanaethau a gomisiynwyd i bobl ag AD yn unig. Nodir gostyngiad o £4,695,590 o

ran gwariant rhwng 2013-14 a 2017-18 yn yr ALLau hynny wnaeth gyflwyno data ariannol (Tabl 4). Ymhlith y gostyngiadau sylweddol mae Sir Fynwy, Blaenau Gwent, Casnewydd, Ynys Môn, Caerffili a Sir y Fflint. Mae dau ALI wedi cynyddu eu gwariant GRhCP – Merthyr Tudful yn enwedig.

- 3.15 Mae gwahaniaethau mawr o ran faint mae ALLau yn gwario fesul person ar AD ac mae'r gwahaniaethau hyn yn fwy amlwg wrth wahanu gwariant rhwng modelau penodol e.e. cymorth fel y bo'r angen yn erbyn byw â chymorth.

Tabl 4: Gwariant GRhCP ALLau rhwng 2014 a 2018

Awdurdod Lleol	Gwariant CP ar wasanaethau AD 2013/14*	Gwariant CP ar wasanaethau AD yn 2017/18	% gwahaniaeth (+ NEU -)
Ynys Môn	£905,019	£493,030	- 46%
Blaenau Gwent	£383,310	£95,498	-75%
Pen-y-bont ar Ogwr	Dd/B	Dd/B	Dd/B
Caerffili	£1,957,388	£1,115,992	- 43%
Caerdydd	£2,590,062	£2,227,167.	-14%
Sir Gaerfyrddin	£1,501,000	£1,325,000	-12%
Ceredigion	Dd/B	£701,000	Dd/B
Conwy	£2,653,207	£2,200,402	-17%
Sir Ddinbych	£1,187,308	£1,053,078	-11%
Sir y Fflint	£1,793,351	£1,138,560	-37%
Gwynedd	£2,275,230	£1,917,822	-16%
Merthyr Tudful	£148,907	£254,167	+71%
Sir Fynwy	£221,119	£0	-100%
Castell-nedd Port Talbot	£1,718,634	£1,371,008	-20%
Casnewydd	£1,413,766	£545,713	-61%
Sir Benfro	£715,138	£772,447	+8%
Powys	Dd/B	Dd/B	Dd/B
RhCT	Dd/B	Dd/B	Dd/B
Abertawe	£2,998,580	£2,843,199	-5%
Torfaen	£404,531	£336,451	-17%
Bro Morgannwg	Dd/B	Dd/B	Dd/B
Wreccsam	£1,805,819	£1,507,472	-17%

** Y flwyddyn ariannol y cyflwynwyd Llywodraeth Cymru, Canllaw Grant Rhaglen Cefnogi Pobl Cymru, Mehefin 2013.*

Cyfweliadau Rhanddeiliaid

- 3.16 Daeth nifer o brif themâu i'r amlwg o gyfweliadau ag ALLau yn dilyn ymarfer codio a mynegeio systematig. Nodir y rhain isod
- Heriau etifeddiaeth*
- 3.17 Gwneud y mwyaf o'r Budd-dal Tai Trosiannol (BTT): nododd ALLau oedd fwyaf rhagweithiol ynghylch 'gwneud y mwyaf o'r pot BTT' yn 2001 bod yr arfer uchafu wedi ffocysu'n helaeth ar ddadgofrestru cartrefi gofal preswyl i bobl ag AD gan nad oedd llawer o'r cartrefi llai yn bodloni'r Safonau Gofal newydd (bryd hynny) mewn perthynas â gofod a chyfleusterau. Roedd tri ALI o'r farn eu bod nhw mewn perygl o 'gael eu cosbi' am wneud beth oedd angen iddynt wneud ar adeg yr arfer uchafu – 'os gwneir penderfyniad i leihau gwariant GRhCP AD nawr?'.
- 3.18 Byw â Chymorth: Mae rhai pryderon sylweddol ymhlith rhai ALLau y gallai unrhyw newidiadau cyflym neu sylweddol i'r dyfodol ar sut gellid defnyddio'r GRhCP ar gyfer byw â chymorth gael effaith dadsefydlogi ac anghymesur arnyn nhw o'u cymharu ag ALLau eraill. Mae'r pryderon yn fwy amlwg i ALLau sy'n defnyddio'r holl gyllideb GRhCP AD ar fyw â chymorth ac na fydd penderfyniad sy'n annog dadgomisiynu cyflym o'r GRhCP yn caniatáu digon o amser i ddarparwyr neu gomisiynwyr i ddatblygu modelau amgen a fforddiadwy. Mae'r ALLau hyn yn poeni am osod risgiau ariannol nad oes modd eu rheoli ar ddarparwyr, gan arwain felly at risgiau o ran cymorth a threfniadau llety presennol oedolion ag AD.
- 3.19 'Mannau poblogaidd' adsefydlu o'r ysbyty: Nododd tri ymatebwr heriau hanesyddol o ran 'mannau poblogaidd' adsefydlu h.y. mae canfyddiad bod crynodiad uchel mewn rhai ardaloedd daearyddol o bobl sydd wedi adsefydlu o brif leoliadau sefydliadol megis ysbytai Ely neu Hensol yn ne Cymru neu Bryn y Neuadd yng ngogledd Cymru. Y canfyddiad yw bod lleoliad daearyddol rhai o'r ysbytai arhosiad hir hanesyddol wedi cael effaith anghymesur ar rai ALLau. Fodd bynnag, nid oedd sgôp yr adolygiad hwn yn caniatáu archwiliad manwl ar effaith adsefydlu o ysbytai arhosiad hir ar ALLau penodol. Felly, doedd dim modd profi'r effaith dybiedig hon.

- 3.20 Cyllidebau Gofal Cymdeithasol: Roedd dau draean o ymatebwyr o ALLau yn poeni am effaith penderfyniadau cyllid ar gyllidebau gofal cymdeithasol. Nodwyd bod galw cynyddol a gwariant cynyddol ledled bob grŵp cleientiaid gofal cymdeithasol yn golygu dim hyblygrwydd, neu ddim llawer, i ail-ddyrannu cyllid gofal cymdeithasol penodol presennol i Fyw â Chymorth neu fodolau eraill sy'n seiliedig ar lety. Roedd y pryderon hyn ochr yn ochr ag ansicrwydd ynghylch sut y penderfynir ar ail-ddyraniad y cyllid GRhCP/GCT.

Gofal yn erbyn Cymorth

- 3.21 Dyletswydd statudol: Cadarnhaodd y dadansoddiad data ansoddol bod anghysondebau ynghylch yr hyn a ddeallir gan ymyrraeth 'statudol' ac 'anstatudol'. Mae timau gofal cymdeithasol yn defnyddio meini prawf trothwyon gwahanol ar gyfer asesu 'dyletswydd'. Er enghraifft, mae rhai timau gofal cymdeithasol yn defnyddio lefel IQ (mwy yn 3.22 isod) yn rhan o'r meini prawf asesu cymhwysedd. Mae darpariaethau yn Neddf Tai Cymru 2014 (DTC) a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (DGCLI) yn cynnwys dyletswyddau atal statudol sy'n herio'r cysyniad traddodiadol o 'gymhwysedd'. Roedd 12 allan o'r 14 o ymatebwyr yn poeni pe byddai'r cyllid yn cael ei drosglwyddo o'r GCT i'r GCRh heb unrhyw ddiogelu, y byddai'r cyllid hwnnw'n cael ei flaenoriaethu ar gyfer achosion 'statudol' yn unig – gan golli ffocws ar atal.
- 3.22 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (DGCLI 2014): Nododd pedwar o ymatebwyr bod y newidiadau yn sgil DGCLI 2014 yn gwneud y prawf cymhwysedd statudol ar gyfer ymyrraeth statudol yn llai 'syml' o ran gwneud penderfyniadau ac yn gofyn am gydweithrediad o ran comisiynu a chynllunio ledled tai, gofal cymdeithasol a chefnogi pobl. Er enghraifft, nid yw cymhwysedd dan DGCLI yn cael ei bennu gan drothwy salwch/anabledd (megis e.e. lefel IQ yn achos AD) ond yn hytrach gan allu person i gael mynediad at gefnogaeth fodlon gan aelodau'r teulu, ffrindiau neu'r gymuned ehangach i'w helpu nhw os nad oes modd bodloni'r angen hwnnw un ai – (i) yn unigol, (ii) gyda chefnogaeth pobl eraill sy'n barod i helpu neu (iii) gyda chymorth gwasanaethau yn y gymuned y mae gan yr oedolyn fynediad atynt. Mae dyletswyddau atal y Ddeddf yn golygu bod angen i

awdurdodau lleol uchafu defnydd o strategaethau ac adnoddau sydd un ai'n stopio neu'n arafu'r broses o symud ymlaen at yr angen am ofal cymdeithasol statudol.

- 3.23 Deddf Tai (Cymru) 2014 (DTC 2014): Mae Adran 60 DTC (2014) yn gofyn i awdurdodau tai lleol gydweithio ochr yn ochr ag awdurdodau cyhoeddus eraill a'r sector gwirfoddol i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei ddylunio i fodloni anghenion grwpiau sydd mewn perygl penodol o ddod yn ddigartref. Ymhlith y grwpiau hynny mae pobl sy'n cael eu gorfodi i adael yr ystâd ddiogel, pobl ifanc sy'n gadael gofal, pobl sy'n gadael y lluoedd arfog arferol, pobl sy'n gadael yr ysbyty ar ôl triniaeth yno ar gyfer heriau iechyd meddwl a phobl sy'n derbyn gwasanaethau iechyd meddwl yn y gymuned. Nododd dau ymatebwr bod gan bobl ag AD sy'n cael cefnogaeth heriau eraill megis iechyd meddwl neu gamddefnyddio sylweddau oedd yn aml yn gofyn am ymatebion ar draws awdurdodau i atal nid yn unig y broses o symud ymlaen at wasanaethau gofal mwy drud a statudol, ond hefyd i atal digartrefedd a bod gwariant GRhCP ar AD yn ymateb i agenda atal ehangach.

Comisiynu

- 3.24 Rhaglen Cefnogi Pobl – cymhwysedd: Er bod cydnabyddiaeth ymhlith yr ymatebwyr y dylid glynu at feini prawf cymhwysedd GRhCP wrth gomisiynu bob model gwasanaeth (gan gynnwys byw â chymorth), holodd chwech o ymatebwyr am y syniad o wahanu AD wrth drafod cymhwysedd o grwpiau defnyddwyr gwasanaeth CP eraill. Mae hyn yn amlygu mater cydraddoldeb o ran comisiynu. Nododd un ymatebwr:

“pam dim ond anabledau dysgu, beth am iechyd meddwl a grwpiau eraill lle mae modd defnyddio'r un rhesymeg? Ydy, mae'n bwysig defnyddio bob maen prawf ond allwn ni ddim atal grŵp cyfan rhag defnyddio CP - nid yw hynny'n iawn”

Mae'n werth cofio bod nodau'r Rhaglen Cefnogi Pobl yn cynnwys darpariaeth cefnogaeth sy'n ymwneud â thai (CYT) i:

- helpu pobl agored i niwed i fyw mor annibynnol â phosibl
- atal problemau yn y man cyntaf neu gynnig help cyn gynted â phosibl er mwyn lleihau'r galw ar wasanaethau eraill megis gwasanaethau iechyd a chymdeithasol
- rhoi help i ategu'r gofal personol neu feddygol allai pobl fod ei angen
- hyrwyddo cydraddoldeb a lleihau anghydraddoldeb

3.25 Mae amrywiaeth o ddulliau o ran comisiynu gwasanaethau AD GRhCP ledled ALLau. Mae'r dulliau comisiynu hefyd yn cael eu dylanwadu'n gryf gan ba adran yn yr ALI sy'n gyfrifol dros y gyllideb GRhCP a sut mae perthnasau ar y cyd yn gweithio rhwng gwasanaethau cymdeithasol a thai. Mae ALLau yn defnyddio systemau a thybiaethau gwahanol o ran pobl ag AD i wneud penderfyniadau am wasanaeth a ariennir gan y GRhCP. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Defnyddio tariffau lleol yn seiliedig ar gyfres o dybiaethau sy'n nodi faint o oriau cyfartalog y bydd ar berson angen cymorth tai ledled gwasanaeth GRhCP yn seiliedig ar lety.
- Asesiadau unigol – fydd yn pennu pa lefelau o gymorth tai a chyllid gofal cymdeithasol fydd ei angen o fewn graddfa sefydledig y cytunwyd arni (i ddarparwyr) ar gyfer darpariaeth yn seiliedig ar lety
- Asesiadau unigol sy'n arwain at becynnau CYT sy'n cael eu capio ar lefel a bennir yn lleol
- Dadfuddsoddiad llwyr/gostyngiad sylweddol mewn cyllid GRhCP ar gyfer gwasanaethau sy'n ymwneud â llety megis byw â chymorth gyda'r bwlch cyllid un ai'n cael ei fodloni'n rhannol neu'n llawn gan ofal cymdeithasol
- Nododd ychydig dros draean o ymatebwyr (5 allan o 14) bod angen gwneud mwy o waith i sicrhau bod y GRhCP yn cael ei gwario ar weithgareddau cymwys, ond gan hefyd nodi o ran gwasanaethau byw â chymorth ei bod hi'n bwysig nad yw'r asesiad a'r broses fonitro yn dod yn faich biwrocrataidd anghymesur.

Sefydlogrwydd y farchnad

- 3.26 Nododd wyth o ymatebwyr bod sefydlogrwydd y farchnad yn bryder mawr mewn perthynas â phenderfyniadau cyllid i'r dyfodol. Roedd ALLau yn poeni am natur a chyflymder y penderfyniadau ar ddyraniadau cyllid gan LC gan y gallai'r rhain gael effaith ansefydlogi posibl ar eu marchnad byw â chymorth yn benodol. Nododd pob ymatebwr bod cael amser derbyniol i ymdrin â'r newidiadau yn hanfodol fel y gall ALLau gynllunio a rheoli'r newid mewn modd sydd mor 'ddiogel' â phosibl.

Llywodraethu

- 3.27 Nododd 12 o ymatebwyr y byddai'n well ganddynt gryfhau trefniadau llywodraethu ynghylch defnyddio'r GRhCP yn hytrach na throsglwyddo'r cyllid i'r GCR. Roedd y cyfranogwyr yn teimlo mai gwella ansawdd ac amllder y prosesau a'r camau archwilio a gyflawnir o ganlyniad i unrhyw heriau ynghylch gwariant anghymwys oedd y llwybr fwyaf synhwyrol i'w chymryd. Nododd pedwar o ymatebwyr bod llywodraethu gwell ar sail risg newidiol yn ddull mwy teg a chyfrannol. Ymhlith y syniadau roedd:

- Craffu agosach o ALLau lle mae gwariant GRhCP ar AD wedi parhau'n gyson neu wedi codi ers cyflwyno'r canllaw newydd (bryd hynny) yn 2013.
- Craffu agosach lle mae gwariant GRhCP cyfan, neu'r rhan fwyaf ohono, ar fyw â chymorth neu gynlluniau GRhCP eraill yn seiliedig ar lety.

Newidiadau ers cyflwyno Canllawiau Grant Rhaglen Cefnogi Pobl (GRhCP) – Cymru (Mehefin 2013)

Mae 15 allan o'r 18 ALI a gyflwynodd ddata ariannol wedi lleihau eu gwariant GRhCP, gan leihau eu gwariant oddeutu £4.4m ers cyflwyno'r Canllaw GRhCP yn 2013 a gyflwynwyd yn dilyn Adolygiad Aylward.

Mae'r newidiadau wedi cynnwys cyfuniad o:

- Un ai dadgomisiynu neu ddadgomisiynu'n rhannol cyllid GRhCP ar wasanaethau byw â chymorth drwy gyflwyno tariffau/capiau lleol a/neu ail-dendro.

- Cynnydd mewn cyllid gan y gwasanaethau cymdeithasol i gefnogi cynlluniau byw â chymorth lle mae'r GRhCP wedi cael ei ddadgomisiynu. Fodd bynnag, yn ystod cyfweiliadau nododd yr ymatebwyr nad oedd y bwlch o ran cyllid yn cael ei ddisodli'n union gan y gwasanaethau cymdeithasol.
- Gwyro peth o'r cyllid i gomisiynu modelau cymorth yn ôl yr angen yn benodol ar gyfer AD.
- Gwyro cyllid i gomisiynu modelau cymorth fel y bo'r angen sy'n cynnwys cefnogaeth i bobl ag anableddau dysgu, anableddau dysgu 'cymedrig' ac oedolion agored i niwed eraill.
- Gwyro cyllid i ddiwallu bylchau cyflenwi mewn grwpiau cleientiaid GRhCP eraill e.e. iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau.
- Gwyro cyllid i gefnogi cynlluniau lleoli oedolion.
- Roedd un enghraifft lle mae'r cyllid wedi'i ddefnyddio i gefnogi cynllun gofal cartref.

Contractau cyffredinol

- 3.28 Mae ALLau yn cyflwyno contractau cymorth fel y bo'r angen yn fwy aml bellach sy'n cynnig hyblygrwydd i allu cynnig cefnogaeth ledled nifer o feysydd anghenion. Mae pryderon ymysg yr ALLau hynny sydd â chontractau cyffredinol pe byddai GRhCP AD yn cael ei throsglwyddo i'r GCR, y byddai'n anodd cyfrifo neu weithio allan yn gywir pa GRhCP sy'n cael ei wario ar AD. Y rhesymeg yw y gall contractau cyffredinol gefnogi pobl gydag ystod o anghenion ar y cyd megis AD cymedrol, Anableddau Dysgu, camddefnyddio sylweddau a heriau iechyd meddwl. Fodd bynnag, ni fydd yn amlwg bob tro beth yw'r 'prif anghenion ac felly, byddai cyfrifo setliad ar gyfer y GCR yn fwy anodd.

GCT yn erbyn GCR

- 3.29 Roedd bron bob ymatebwr, heblaw am ddau, yn teimlo bod trosglwyddo'r GRhCP yn ei chyfanrwydd neu'n rhannol i'r GCR yn beth anghywir i wneud am sawl rheswm – gan gynnwys:

- Sut byddai'r cyllid yn cael ei gyfrifo ar ôl trosglwyddo – yn benodol lle mae newidiadau comisiynu sylweddol wedi'u cyflwyno mewn blynyddoedd diweddar e.e. cyflwyno contractau cyffredinol.
- Roedd llawer yn teimlo eu bod eisoes wedi profi ymarferion adolygu sydd eisoes yn cael eu 'datrys' o ran y cwestiwn o ofal yn erbyn cymorth yn ymwneud â thai – o ganlyniad i newidiadau mewn comisiynu gofal cymdeithasol.
- Y byddai effaith trosglwyddo i'r GCR yn effeithio ar setliadau ALLau oherwydd nid yw penderfyniadau Llywodraeth Cymru ar ail-ddyrannu'r GRhCP yn amlwg eto.
- Heb ddiogelwch, byddai'r arian yn cael ei ddefnyddio ar ôl agendâu cystadleuol eraill.
- Hyd yn oed gyda diogelwch, oherwydd heriau cyllideb gofal cymdeithasol cynyddol mae trothwyon o ran mynediad at y gwasanaeth yn rhy uchel i bobl ag AD 'cymedrol' neu AD sy'n gymwys ar gyfer cefnogaeth drwy'r GRhCP.
- Bydd y ffocws ar atal yn cael ei golli – sy'n elfen allweddol ar fframwaith rheoleiddio'r GRhCP a DGCLI 2014.

Mae'n bwysig nodi bod dau ALI yn credu bod trosglwyddo'r GRhCP yn ei chyfanrwydd i'r GCR yn beth iawn i wneud, gan fod hyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd i ALLau o ran sut roeddent yn gallu rheoli eu hadnoddau.

4. Casgliadau

- 4.1 Mae'r cwestiynau ymchwil ochr yn ochr â'r dadansoddiad a'r canfyddiadau o'r data meintiol ac ansoddol wedi'u defnyddio i ddod i'r casgliadau isod:

Sut mae cymorth tai Anableddau Dysgu wedi'i strwythuro ledled Cymru?

- 4.2 Nid yw cymorth tai Anableddau Dysgu yn gyson ledled Cymru. Mae rhai awdurdodau lleol yn dal yn sylweddol ddibynnol (hyd at 11.5% o gyfanswm y gwariant AD) ar y GRhCP i helpu i ariannu cynlluniau byw â chymorth neu leoliadau oedolion.
- 4.3 Mae 13% o gyfanswm y gwariant GRhCP (yn seiliedig ar yr enillion a dderbyniwyd) ar AD yn ariannu cymorth fel y bo'r angen. Mae'r gweddill (87%) yn ariannu cynlluniau byw â chymorth neu gynlluniau lleoli oedolion. Bu ymdrech sylweddol ers 2014 ymysg rhai ALLau i resymoli'r broses o gomisiynu GRhCP i wasanaethau AD yn seiliedig ar lety yn dilyn adolygiadau wnaeth amlygu gwariant anghymwys. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad o ran gwariant a/neu ailfodelu rhai gwasanaethau. Mae ALLau eraill wedi datblygu gwasanaethau cymorth AD yn ôl yr angen neu wasanaethau cyffredinol yn ôl yr angen y gall pobl ag AD eu defnyddio – gan leihau'r cysylltiad â chymorth o ran daliadaethau a thai. Mae gan rai ALLau bortffolio cymysg o wasanaethau AD a ariennir gan y GRhCP, ac mae rhai eraill yn gwario ar gynlluniau byw â chymorth a/neu leoli oedolion yn unig.

Sut mae'r ffynhonnell gyllid, o fewn Awdurdod Lleol, yn cael ei phennu (h.y. beth yw'r meini prawf er mwyn ariannu'r cymorth drwy ffynonellau amrywiol)?

- 4.4 Nid oes dull cyson o ran penderfynu ar ariannu cymorth ledled ALLau. Mae ystod gwariant y GRhCP y person yn amrywio rhwng yr awdurdodau lleol, gydag ystod o £0 yn Sir Fynwy i £3,476 yng Nghonwy. Mae'r gwariant yn cael ei effeithio gan drefniadau GRhCP hanesyddol ac amllder newidiadau ers cyflwyno'r canllaw GRhCP yn 2013. Mewn ALLau lle does dim comisiynu cynlluniau GRhCP AD-penodol, nid yw hyn yn golygu nad yw'r GRhCP yn cael ei defnyddio i gefnogi pobl ag AD. Er enghraifft, mae rhai ALLau yn cefnogi pobl gydag AD ochr yn ochr â grwpiau cleientiaid eraill drwy gontractau cymorth cyffredinol yn ôl yr angen.

- 4.5 Mae rhai ALLau yn defnyddio asesiadau unigol i bennu pecynnau cymorth unigol, ac mae rhai ALLau yn defnyddio dulliau tariffau lleol/capio.

Pa anghenion penodol (o fewn cymorth tai Anableddau Dysgu'n fwy ehangach) sy'n cael eu hariannu?

- 4.6 Nid oedd y dadansoddiad/canfyddiadau o'r data meintiol nac ansoddol yn rhoi ateb pendant i'r cwestiwn hwn. Fodd bynnag, mae gwahaniaethau sylweddol o ran cyllid GRhCP y person ledled Cymru'n debyg o fod o ganlyniad i ddiffiniadau gwahanol o beth sy'n gymwys, ynghyd â ffactorau hanesyddol megis trefniadau GRhCP hanesyddol, proffiliau demograffig/poblogaeth gwahanol ar draws ALLau. Fodd bynnag, mae'r dadansoddiad/canfyddiadau'n amlygu nad oes cysondeb o ran pa anghenion penodol sy'n cael eu hariannu/ddylai gael eu hariannu.

Pa fath o gymorth/gweithgaredd sy'n cael ei ariannu?

- 4.7 Roedd adborth bob ymatebwr yn nodi eu bod nhw'n hyderus eu bod nhw un ai'n comisiynu cymorth tai cymwys mewn cynlluniau byw â chymorth neu'n gweithio tuag at hynny. Unwaith eto, mae'r gwahaniaeth sylweddol o ran gwariant y pen ledled ALLau yn awgrymu bod angen craffu mwy ar hyn i archwilio a yw ALLau yn dehongli'r meini prawf cymhwysedd yn wahanol. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi nad oedd sgôp yr adolygiad hwn (o ran amserlenni a'r wybodaeth oedd ar gael) yn caniatáu ffocws manwl ar hyn.

Yw'r cymorth yn sefydlog neu yn ôl yr angen?

- 4.8 Gan amlaf, mae'r cymorth yn gymorth sefydlog (87%). Fodd bynnag, mae'r rhaniad o ran cymorth sefydlog a chymorth sefydlog yn ôl yr angen yn amrywio'n helaeth ledled ALLau – o 0-100% (gweler Tabl 3).

Beth yw lefel y cymorth tai Anableddau Dysgu sydd ar gael ym mhob Awdurdod Lleol? Faint o'r cyllid hwn a roddir i'r unigolion hynny y mae gan yr Awdurdod Lleol ddyletswydd statudol iddynt o ganlyniad i'w hanableddau dysgu?

- 4.9 Yn gyffredinol, mae gan y gwasanaethau cymdeithasol ddyletswydd dros bawb sy'n byw mewn cynlluniau byw â chymorth neu leoliadau oedolion. Felly, mae 86% o wariant GRhCP (yn seiliedig ar enillion) ar AD yn cael ei wario ar bobl lle mae'r

ALLau wedi asesu bod ganddynt ddyletswydd statudol i gynnig gofal. Fodd bynnag, mae'n bwysig pwysleisio eto bod Deddf Tai Cymru 2015 (DTC) a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 (DGCLI 2914) yn cynnwys dyletswyddau atal statudol sy'n herio'r cysyniad traddodiadol o 'gymhwysedd'. Yn dechnegol, nid yw'n awtomataidd yn golygu y bydd person ag AD (waeth beth fo'i lefel IQ) yn gymwys ar gyfer pecyn gofal a ariennir yn statudol gan y gwasanaethau cymdeithasol (gweler 3.21).

Beth yw'r gwahaniaethau (a'r rhesymau dros y gwahaniaethau hynny) yn y lefel o gymorth tai Anableddau Dysgu ledled awdurdodau lleol?

- 4.10 Nodir y gwahaniaethau o ran cyllid yn Nhablau 2 a 3. Mae'n bosibl bod sawl factor oedd y tu hwnt i sgôp yr adolygiad hwn h.y. tueddiadau demograffig neu boblogaeth penodol, heriau ar gyllidebau gofal cymdeithasol neu drefniadau GRhCP hanesyddol sy'n cyfrannu at lefelau cyllid amrywiol. Fodd bynnag, ymhlith y ffactorau eraill sy'n effeithio ar lefelau cyllid mewn ALLau oedd yng nghylch gwaith yr adolygiad hwn oedd:

- Dadgomisiynu cyllid AD GRhCP o gymorth yn seiliedig ar lety mewn rhai ALLau.
- Cyflwyno contractau cymorth AD yn ôl yr angen ac arbenigol mewn rhai ALLau.

A fu unrhyw newid yn lefelau'r cyllid ers gweithredu Adolygiad Aylward?

- 4.11 Gwelwyd newidiadau yn y lefelau cyllid. Mae oddeutu £4.7m o wariant wedi lleihau ar gynlluniau AD-penodol GRhCP (yn seiliedig ar enillion). Gall y gostyngiad cyffredinol fod yn uwch/is – gan na wnaeth pedwar ALI ddychwelyd y data ariannol.

5. Opsiynau

- 5.1 Yn seiliedig ar y dadansoddiad o'r data, y canfyddiadau a'r casgliadau – mae sawl prif opsiwn wedi'u hamlinellu isod ar gyfer cyllido gwasanaethau AD a ariennir gan y GRhCP i'r dyfodol gyda phrif ystyriaethau ar gyfer pob opsiwn. Nid diben yr adolygiad hwn yw rhoi opsiwn a argymhellir nac opsiwn â blaenoriaeth i LIC.

Opsiwn 1: Peidio â newid unrhyw beth/cadw at yr un drefn a chaniatáu i ALLau reoli eu hadnoddau'n hyblyg ynghylch darpariaeth AD

Ystyriaethau

- Mae'r trefniadau cyllid presennol a hanesyddol yn y maes hwn yn gymhleth. Gallai pennu meini prawf teg a chyson ar gyfer trosglwyddo cyllid o'r GRhCP/GCT i'r GCR gael graddau gwahanol iawn o effeithiau ledled ardaloedd ALLau gwahanol. Rhywbeth sy'n ategu hyn ymhellach yw'r camau gwahanol a gymerwyd gan ALLau ers adolygiad Aylward, y modelau darpariaeth AD gwahanol mewn ALLau a hefyd yr effaith bellach nad yw'n wybyddus ar hyn o bryd ar yr adolygiad ail-ddyrannu sydd wedi'i gomisiynu gan Lywodraeth Cymru.
- Mae rhai ALLau yn amlwg wedi bod yn fwy rhagweithiol na rhai eraill ynghylch bwrw ymlaen â'r newidiadau cyllid AD a nodwyd yn adolygiad Aylward. Gallai glynu at yr un drefn o ran cyllid atal unrhyw gymhelliad o ran camau/camau pellach i fynd ar ôl enghreifftiau lle nid yw cymhwysedd ar gyfer y GCT/GRhCP yn cael ei weithredu'n llym.
- Mae'n bosibl y bydd glynu at yr un drefn heb unrhyw wahaniaeth o ran arferion ledled y system (boed hynny o ran comisiynu lleol neu archwiliadau gwariant) yn cyfleu'r neges nad yw Llywodraeth Cymru yn gofyn am weithrediad llym y canllawiau GRhCP/GCT.

Opsiwn 2: Cadw at yr un drefn a chaniatau ALLau i reoli eu hadnoddau'n hyblyg ynghylch darpariaeth AD ond cyflwyno cap uned/graddfa tariff cenedlaethol a chyson i bobl ag AD sy'n byw mewn cynlluniau byw â chymorth.

Ystyriaethau

- Mae'r ystyriaethau a nodwyd yn Opsiwn 1 yn berthnasol yma hefyd.
- Ni fydd rhai ALLau yn ystyried bod defnyddio cap neu dariff cenedlaethol yn mynd yn ddigon pell i geisio datrys yr heriau o ran gwahaniaethu cymorth a aseswyd a daliadaethau.
- Mae rhai ALLau eisoes wedi dadfuddsoddi'r GRhCP yn llwyr o gynlluniau byw â chymorth, sy'n adlewyrchu'r amrywiaeth o ran beth sy'n cael ei ystyried yn wariant cymwys. Mae'n bosibl y gall cyflwyno pris uned/cap/tariff cenedlaethol ategu anghysondebau presennol pan fo angen eglurder ar hyd y sector ar sut i symud ymlaen ar y mater hwn.

Opsiwn 3: Gellid trosglwyddo'r holl gyllid GRhCP presennol sy'n cael ei ddefnyddio i roi cymorth i'r rheiny ag AD draw i'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn sgil y Grant Cymorth Refeniw.

Ystyriaethau

- Byddai hyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd o ran eu cynlluniau gwariant cyffredinol i bobl agored i niwed.
- Yn achos trosglwyddo – heb drefniadau ar gyfer diogelu'r cyllid, gallai hyn gael effaith andwyol ar lefel gwariant i'r dyfodol i bobl ag AD o ystyried y blaenoriaethau gwario cystadleuol ynghylch comisiynu gofal cymdeithasol.
- Mae allosod gwariant gwirioneddol GRhCP/GCT yn gymhleth o ystyried y trefniadau comisiynu gwahanol mewn ALLau e.e. contractau cyffredinol yn erbyn contractau penodol i AD. Mae projectau cyffredinol yn cynnig gwasanaethau i ystod o grwpiau o gleientiaid gan gynnwys pobl ag AnawD, AD, camddefnyddio sylweddau. Credir bod gan lawer fwy nag un o faterion ac felly nid ydynt yn ffitio i mewn i un category yn rhwydd.
- Mae rhai ALLau wedi bod yn rhagweithiol eisoes o ran ail-lunio eu gwasanaethau'n unol ag adolygiad Aylward. Mae cyfrifo swm cywir y setliad

fesul ALI yn gymhleth oherwydd mae rhai wedi gwneud newidiadau sylweddol i'w dull comisiynu AD ers Aylward. Felly, mae adnabod y man cychwyn cywir ar gyfer 'mheintio'r pot' yn gymhleth. Er enghraifft, mae rhai ALLau eisoes wedi lleihau gwariant yn eu GRhCP/GCT ar wasanaethau AD. Fodd bynnag, mae'r arbedion eisoes wedi'u hailfuddsoddi ar gyfer blaenoriaethau GRhCP eraill.

- Byddai rhai ALLau yn ystyried hyn yn rhywbeth sydd yn ei hanfod yn allgau pobl gydag AD sydd ag anghenion cymorth tai o'r broses gomisiynu GRhCP/GCT.

Opsiwn 4: Gellid trosglwyddo'r cyllid GRhCP presennol sy'n cael ei adnabod fel cyllid sy'n cael ei ddefnyddio i gynnig cefnogaeth i bobl ag AD y mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd statudol ar eu cyfer i'r gwasanaethau cymdeithasol drwy'r GCR. Bydd cyllid GRhCP presennol sy'n cael ei adnabod fel cyllid sy'n cael ei ddefnyddio i gefnogi pobl ag AD nad oes gan yr awdurdod lleol ddyletswydd statudol ar eu cyfer yn aros yn y GCT.

Ystyriaethau

- Mae rhan fwyaf y cyllid GRhCP/GCT i bobl ag AD yn comisiynu gwasanaethau byw â chymorth. Felly, byddai'r swm sy'n weddill yn y pot GRhCP/GCT ar gyfer AD yn isel iawn.
- Mae rhai ALLau wedi bod yn rhagweithiol iawn o ran ail-lunio eu gwasanaethau yn sgil Adolygiad Aylward. Mae cyfrifo'r swm setliad cywir i symud draw i'r GCR fesul ALI yn gymhleth gan fod llawer eisoes wedi cyflwyno newidiadau sylweddol o ran eu dulliau comisiynu ar gyfer AD ers Adolygiad Aylward. Felly, mae adnabod y man cychwyn cywir ar gyfer 'mheintio'r pot' yn gymhleth.
- Er bod meini prawf cymhwysedd gofal cymdeithasol statudol a GRhCP/GCT yn wahanol – mae'n hollol bosibl y bydd unigolyn yn gymwys ar gyfer y ddau.
- Mae asesiad y dyletswydd statudol wedi newid ers dyfodiad y DdGCLI 2014 gyda dyletswyddau clir ynghylch atal yr angen am ofal neu i arafu'r broses o

symud tuag at fwy o ofal statudol. Nid yw'r syniad bod rhywun yn gymwys am ofal *neu* gefnogaeth yn seiliedig ar dai yn gywir. Gallent fod yn gymwys ar gyfer y ddau – hyd yn oed gyda chynllun byw â chymorth.

Opsiwn 5: Cadw cyllid cymorth tai AD o fewn GRhCP/GCT ond gwella'r trefniadau llywodraethu ac archwilio.

Gellid cadw'r holl gyllid GRhCP sy'n cael ei adnabod fel cyllid sy'n cael ei ddefnyddio i gefnogi'r rheiny ag AD aros o fewn y GRhCP/GCT. Dylid cyflwyno canllawiau clir (o fewn dogfen Canllaw GCT) sy'n nodi y dylid defnyddio'r cyllid er mwyn cynnig cymorth tai yn unig, ac nid er mwyn ariannu gofal neu unrhyw ddyletswyddau statudol eraill. Dylid gofyn i bob ALI gynnal adolygiad o gefnogaeth AD a ddarperir drwy'r CP/GCT o fewn cyfnod amser penodol ac yn dilyn hyn, bydd angen rhoi sicrwydd i LC bod cyllid GCT yn cael ei ddefnyddio i ariannu gweithgareddau cymorth tai (ac nid gwasanaethau gofal). Mae'n bosibl y bydd Llywodraeth Cymru'n penderfynu cynnal adolygiad/archwiliad i ddilysu'r canlyniadau.

Ystyriaethau

- Mae'n bosibl y bydd rhai arweinwyr cyllid a gofal cymdeithasol ALLau yn ystyried bod hyn yn cyfyngu ar hyblygrwydd o ran sut mae modd ariannu/dylunio/comisiynu gwasanaethau i bobl agored i niwed.
- Heb ddull archwilio gwahanol ledled y system (e.e. Llywodraeth Cymru/ALLau/PCRhau) o ran gwariant GRhCP/GCT mae risg y bydd y cwestiynau ar gymhwysedd yn parhau.
- Bydd angen ystyried pa drosoledd sy'n cael ei ddefnyddio i roi newid ar waith os yw canfyddiadau archwiliad yn cyfleu achosion o beidio â chydymffurfio mewn perthynas â chymhwysedd gwariant GRhCP/GCT. Ymhlith yr opsiynau mae cyflwyno canllawiau statudol a/neu fonitro mwy llym a defnyddio telerau ac amodau grant - gan gynnwys atal cyllid mewn achosion o beidio â chydymffurfio.
- Efallai bod angen cyflawni dull archwilio yn seiliedig ar risgiau dros gyfnod amser penodol (e.e. 3-5 mlynedd) lle mae mwy o ffocws/blaenoriaeth ar gefnogi/archwilio ALLau os yw gwariant GRhCP/GCT wedi cynyddu neu

leihau yn unig ers adolygiad Aylward, neu os yw'n cael ei ddefnyddio'n unig ar gyfer cynlluniau byw â chymorth a/neu leoli oedolion.

Cyfeiriadau

Alyward, M., Bailey, K., Phillips, C., Cox, K. a Higgins, E. (2010). Rhaglen Cefnogi Pobl yng Nghymru: Adroddiad terfynol ar Adolygiad a gomisiynwyd gan Jocelyn Davies AS, Dirprwy Weinidog Tai ac Adfywio, Cynulliad Cymru. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Archwiliwr Cyffredinol Cymru. (2017), [Rhaglen Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru.](#)

Dr Clive Grace OBE, Mike Bennett, a'r Athro Steve Martin (2013). [Adolygiad Dyluniad Llywodraethiant, Llywodraeth Cymru.](#)

Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru. (2018) [Rhaglen Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru.](#)

Llywodraeth Cymru. (2011). [Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith ar gyfer gweithredu.](#)

Llywodraeth Cymru. (2013) [Canllawiau Grant Rhaglen Cefnogi Pobl-Cymru.](#)

Llywodraeth Cymru. (2014). [Adolygiad Annibynnol o Drawsnewid y Rhaglen Cefnogi Pobl](#)

Llywodraeth Cymru (2018) [Gwariant Refeniw Gwasanaethau Cymdeithasol yn ôl Grŵp Cleientiaid \(2017/18\) \(StatsCymru\)](#)

Llywodraeth Cymru – [Unigolion ag anabledau dysgu yn ôl awdurdod lleol, gwasanaeth ac ystod oedran. \(2018\) \(StatsCymru\).](#)

Atodiad A- Dulliau ymchwil

Cwestiynau cyfweld ar gyfer dogfennaeth adolygiad AD CP

Enw?	ALI?	Swydd?
Cwestiynau penodol yn seiliedig ar ddata penodol o awdurdod lleol y cyfranogwr.		
Cwestiwn	Ymateb	Gwybodaeth arall
Beth yw'r rhesymeg hanesyddol a phresennol dros y rhaniad rhwng gwasanaethau cymdeithasol a CP, ac unrhyw gyllid arall ar gyfer gwasanaethau AD?		
Beth yw'r meini prawf dros ariannu cefnogaeth gan ffynhonnell benodol?		
Rhowch fanylion i ni am unrhyw newidiadau un ai mewn lefelau cyllid gofal cymdeithasol neu CP yn eich ardal awdurdod lleol ers gweithredu Adolygiad Aylward.		
Cyflwynodd y rhanddeiliaid awgrymiadau amrywiol (isod) yn ystod ymarferion ymgysylltu â Llywodraeth Cymru dros y flwyddyn ddiwethaf am gyllid gwasanaethau AD i'r dyfodol.		

Hoffem glywed eich barn ar yr awgrymiadau hyn, yn ogystal ag unrhyw awgrymiadau pellach allai fod gennych.

Cwestiwn/awgrym	Ymateb
Gellid trosglwyddo'r holl gyllid CP presennol sy'n cael ei adnabod fel cyllid a ddefnyddir i gefnogi'r rheiny ag AD i'r Gwasanaethau Cymdeithasol drwy'r Grant Cymorth Refeniw	
Gall yr arian a drosglwyddir i bob adran gwasanaethau cymdeithasol fod yn seiliedig ar ei gwariant CP presennol ei hun ar AD. Bydd hyn yn arwain at bob awdurdod lleol yn derbyn yr un lefel o gyllid ar gyfer AD ag y maent yn gwario'n bresennol ar AD drwy CP (heb ystyried y gwaith i ailddyrannu?) Hefyd, sut ydym yn pennu'r sefyllfa bresennol – y flwyddyn ariannol ddiwethaf neu'r 3 blynedd ariannol ddiwethaf?	
Gallai'r arian a drosglwyddir i bob awdurdod lleol fod yn seiliedig ar fformiwla dyrannu. Bydd hyn yn arwain at rai awdurdodau lleol yn derbyn lefel uwch neu is o gyllid na'r hyn y maent yn ei wario ar hyn o bryd ar AD drwy CP	
Gellid trosglwyddo cyllid CP presennol sy'n cael ei adnabod fel cyllid a ddefnyddir i gefnogi'r rheiny ag AD y mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd statudol ar eu cyfer o ran AD i'r gwasanaethau cymdeithasol drwy'r GCR. Gellid cadw'r cyllid CP presennol sy'n cael ei adnabod fel cyllid a	

ddefnyddir i gefnogi'r rheiny ag AD nad oes gan yr awdurdod lleol ddyletswydd statudol ar eu cyfer o fewn y GCT.	
Bydd cyllid CP presennol sy'n cael ei adnabod fel cyllid a ddefnyddir i gefnogi pobl drwy gynlluniau Byw â Chymorth neu Leoli Oedolion yn cael ei drosglwyddo draw i'r Gwasanaethau Cymdeithasol drwy'r GCR. Bydd cyllid CP presennol sy'n cael ei adnabod fel cyllid a ddefnyddir i gefnogi pobl ag AD drwy fodelau gwasanaeth eraill, megis cymorth yn ôl yr angen, yn aros gyda'r GCT.	
Gellid cadw'r cyllid CP presennol sy'n cael ei adnabod fel cyllid a ddefnyddir i gefnogi'r rheiny ag AD o fewn y GCT. Dylid cyflwyno canllawiau clir (o fewn y ddogfen Canllawiau GCT) sy'n nodi mai dim ond ar gyfer cynnig cymorth tai y dylid defnyddio'r cyllid, ac nid er mwyn ariannu gofal neu ddyletswyddau statudol eraill	
Dylid rhoi dyletswydd i bob awdurdod lleol i gynnal adolygiad o gefnogaeth AD a gynigir drwy CP/GCT o fewn cyfnod amser penodol ac yn dilyn hyn bydd angen rhoi sicrwydd i LC bod cyllid GCT yn cael ei ddefnyddio i ariannu gweithgareddau cymorth tai (nid gwasanaethau gofal). Gallai Llywodraeth Cymru benderfynu cynnal adolygiad/archwiliad i ddilysu'r canlyniadau.	
Awgrym eraill – rhowch fanylion	

Awgrym eraill – rhowch fanylion	
Unrhyw wybodaeth berthnasol arall	

Dull casglu data ariannol

cadenza



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dull casglu data Awdurdodau Lleol Cymru mewn perthynas â Gwasanaethau Anableddau Dysgu

Enw	
Safle/Swydd	
Awdurdod Lleol	

Beth oedd ffynonellau cyllid Anableddau Dysgu o fewn eich Awdurdod Lleol rhwng 2012-2019 (rhowch fanylion yn ôl blwyddyn)?

	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19
Cyfanswm Gwariant Gros yr Awdurdod Lleol ar wasanaethau AD								
Cyfanswm Gwariant Gros Gofal Cymdeithasol ar wasanaethau AD								
Faint wariwyd ar wasanaethau dydd?								
Faint wariwyd ar fyw â chymorth?								
Faint wariwyd ar ofal preswyl neu nyrsio?								
Faint wariwyd ar ofal cartref?								
Faint wariwyd ar eraill (rhowch fanylion)?								
Cyfanswm cynlluniau byw â chymorth?								
Cyfanswm y bobl yn byw mewn cynlluniau byw â chymorth?								
Cyfanswm cynlluniau preswyl/nyrsio?								
Cyfanswm y bobl yn byw mewn cynlluniau preswyl/nyrsio?								
Gwariant Cefnogi Pobl								
Faint wariwyd ar gymorth yn ôl yr angen?								
Faint wariwyd ar fyw â chymorth?								
Faint wariwyd ar eraill (rhowch fanylion)?								

Sut mae'r Awdurdod Lleol yn pennu pwy sy'n gymwys ar gyfer cyllid/gwasanaethau gofal cymdeithasol? (Nodwch os yw prawf IQ yn cael ei ddefnyddio fel prawf cymhwysedd).

Sut mae'r awdurdod lleol yn pennu pwy sy'n gymwys ar gyfer cyllid/gwasanaeth cefnogi pobl?

Os yw cyllid cefnogi pobl a gofal cymdeithasol yn cefnogi'r un gwasanaeth e.e. byw â chymorth - beth yw'r rhesymeg dros y cyllid ar wahân?

Atodiad B – Rhestr Awdurdodau Lleol wnaeth Gymryd Rhan

Awdurdod Lleol

Abertawe

Blaenau Gwent

Caerdydd

Caerffili

Casnewydd

Castell-nedd Port Talbot

Gwynedd

Merthyr Tudful

Pen-y-bont ar Ogwr

RhCT

Sir Ddinbych

Sir Gaerfyrddin

Torfaen

Wreccsam

Ynys Môn